Estyn



# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bod Alaw

## Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2024

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae’r ethos hynod ofalgar, cyfeillgar a chefnogol sydd yn nodwedd amlwg o ddarpariaeth Ysgol Bod Alaw yn treiddio trwy bob agwedd o’i gwaith. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda ac maent yn ymdrin â’i gilydd ac oedolion yn barchus a chwrtais. Mae diwylliant diogelu’r ysgol yn gryf ac mae disgyblion yn teimlo’n hapus a diogel wrth eu gwaith a’u chwarae. Maent yn hynod falch o’u hysgol ac yn siarad yn frwdfrydig am eu profiadau.

O ganlyniad i gynllunio pwrpasol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau iaith, rhifedd a digidol. Maent yn cymhwyso eu medrau yn hyderus ar draws y cwricwlwm. Mae trefniadau’r ysgol ar gyfer datblygu medrau corfforol disgyblion yn gryfder amlwg. Mae disgyblion yn mwynhau'r ystod eang o brofiadau a gânt ac yn gwneud cynnydd cryf yn yr agwedd hon.

Mae’r ysgol yn darparu cwricwlwm ysgogol sydd yn ennyn diddordeb disgyblion yn llwyddiannus ac yn adlewyrchu’r cyd-destun lleol yn effeithiol. Mae staff yn sefydlu perthynas waith gefnogol ac annwyl gyda’r disgyblion ac mae’r ardaloedd dysgu yn fannau cynhyrchiol a llawn bwrlwm. Ar y cyfan, mae athrawon yn defnyddio ystod dda o ddulliau addysgu pwrpasol sydd yn hybu cymhelliant a chynnydd disgyblion. Er hyn, nid yw gweithgareddau bob tro’n herio disgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu, yn enwedig y disgyblion mwy abl.

Mae’r pennaeth yn arweinydd angerddol sy’n dyheu am y profiadau dysgu a’r lles gorau posibl ar gyfer bob disgybl. Cefnogir y pennaeth gan dîm gweithgar a hynod gydwybodol o staff sydd yn gosod pwyslais ar sicrhau bod disgyblion yn mwynhau eu gweithgareddau ac yn awyddus i ddysgu. Mae’r llywodraethwyr yn darparu cefnogaeth gadarn i’r ysgol ac mae ganddynt ddealltwriaeth gynhwysfawr o’u dyletswyddau a’u cyfrifoldebau. Maent yn ymroddgar ac yn eiriolwyr diflino dros yr ysgol wrth ddarparu cefnogaeth i arweinwyr a staff ynghyd â sicrhau bod yr ysgol yn defnyddio’i hadnoddau’n briodol.

# Argymhellion

**A1 Sicrhau lefel her briodol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd orau eu gallu, yn enwedig y disgyblion mwy abl**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Bod Alaw |
| Awdurdod lleol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 313 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 225 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 39 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 11.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 5.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 46.7% |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 05/02/2024 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi:  10/04/2024

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.